

Patagonia 3 – Y wlad a'i phobl gan Twm Elias



Y traeth ger Porth Madryn lle glaniodd y Mimosa, Gorffennaf 28ain, 1865

Pan gafodd Rhiannon y ferch a Delyth y wraig gynnig i fynd i gynorthwyo yn ysgolion meithrin a Chymraeg y Gaiman am bedwar mis yn gynharach eleni roedd yn gyfle rhy dda i'w golli. Ac am y golygai hynny fynd â'r ddau fach, Dylan a Morgan, roedd angen taid i helpu efo'r gwarchod a dyletswyddau eraill.

Wedi taith awyr hir a blinderus i Buenos Aires a thaith fewnol i Drelew y diwrnod wedyn roedd yn braf gweld yr arwydd 'Croeso' yn y maes awyr. A chroeso go iawn gawsom ni hefyd; triawd byrlymus, Bili a Gladys Hughes, a Rebeca White yn aros i'n cludo yr hanner awr o daith i'r Gaiman a'u Cymraeg Patagona yn fiwsig i'r glust. Tŷ Camwy, lle roeddem i aros, yn llawn pobl i'n croesawu, a digon o fwyd a chacennau. Byddai'r sbarion yn para inni am ddyddiau.

Cyfarwyddo â'r fro. Y Gaiman yn dre o dros 12,000, gyda'r cysylltiad Cymreig yn amlwg iawn ar enwau strydoedd, busnesau ac adeiladau cyhoeddus, a chlamp o gerflun mawr metal o ddraig goch yng nghanol y dre. Ble bynnag yr oeddem yn mynd, yn cynnwys Buenos Aires cyn cyrraedd, roedd Archentwyr heb unrhyw gysylltiad Cymreig, yn gwybod am ac yn werthfawrogol iawn o gyfraniad y Cymry yn arloesi dyffryn y Gaiman a Chwm Hyfryd dros ganrif a hanner yn ôl. Arweiniodd hynny at sefydlu Talaith Chubut ac agor y rhan hon o'r wlad i ymsefydlwyr eraill o weddill yr Ariannin a gweddill byd.

Er mai lleiafrif yw y siaradwyr Cymraeg yma, mae eu brwdfrydedd dros yr iaith yn rhyfeddol. Dyma ichi gymuned glos, gymdogol, weithgar, ddiwylliedig a hynod groesawgar, sy'n mynd allan o'u ffordd i'ch helpu ym mhob ffordd bosib. Cerdded i fyny Heol Michael D Jones un diwrnod a gwraig yn dod allan o un o'r tai: "Rydych chi yn Tŷ Camwy y'ndydych?" a rhoi pot o jam imi. Dro arall, ychydig o ddrysau yn uwch, gwraig arall yn rhoi cacennau imi, a galwodd sawl un hebio'r tŷ i'n croesawu efo pot o fêl neu ddanteithion eraill.

Cafodd Delyth a minnau sawl taith o gwmpas llawr y Dyffryn gyda'r annwyl Edyth MacDonald i weld y ffermydd a'r Capeli, gan gynnwys Eglwys Llanddewi, sydd yr unig

adeilad â thŵr a chloch. Cloch, gyda llaw, sy'n 300 oed ac a ddaeth yn wreiddol o eglwys St Rhedyw, Llanllyfni, sef yr ardal yr ydym ni yn byw ynddi yng Nghymru:

Henafol gloch Llanllyfni,
A oes hiraeth arnat ti
Am Arfon hardd, fynyddig
A Chymru gysegredig?
Mae hiraeth arnaf fi.

Heblaw eisteddfodau llewyrchus y wladfa – meddyliwch, bod Eisteddfod Chubut yn ail o ran ei maint i'n Heisteddfod Genedlaethol ni – mae dau sefydliad pwysig arall sy'n tynnu pobl at ei gilydd, sef yr ysgolion Cymraeg a'r Capeli. Sbaeneg yn y bore a Chymraeg yn y p'nawn oedd trefn Ysgol Gymraeg y Gaiman a brwdfrydedd yr athrawon yn y dosbathiadau ac yn cynnal gweithgareddau allanol o bob math, yn gymdeithasol a diwylliannol, yn rhyfeddol. Roedd Dylan, 6 oed, wedi pigo cryn dipyn o Sbaeneg erbyn diwedd ein cyfnod.



Rhan o Eisteddfod Chubut 2022

Capeli'r dyffryn yn ffocws hynod werthfawr i ddod a chymuned wasgaredig at ei gilydd ac i gynnal pob mathau o weithgareddau yn cynnwys ddathlu'r gwyliau cenedlaethol, taleithiol a lleol niferus geir yma. Y gwasanaethau yn hwyliog braf a nifer fawr o bobl a phlant yn cyfrannu.. Hector MacDonald â'i allweddellau yn cyfeilio, ac yn aml yn mynd i ddau a weithiau dri o wahanol Gapeli ar y Sul i wneud hynny. Yn aml byddai rhywun efo fo, un ai yn chwarae sacsoffôn, ffidil neu accordion, a byddai Bili Hughes â'i gitâr weithiau yn canu emyn yn unigol.



Dawnsio gwerin y tu allan i Gapel Bethel, Y Gaiman i ddathlu diwrnod cenedlaethol yr Ariannin

Amryw o'r gwasanaethau, a'r llyfr emynau, yn ddwyieithog. Roeddem yn morio canu penillion Cymraeg a Sbaeneg bob yn ail ar yr hen emyn-donau cyfarwydd, ac am fod y Sbaeneg yn ffonetig fel y Gymraeg doedd dim problem inni ddarllen ac yngannu'n gywir er nad oeddem yn deall y geiriau. Roedd yn bleser mynd i'r gwasanaethau a theimlo gwefr y canu pedwar llais. Ydynt, mae'r gwladfawyr yn gantorion o fri.

O anialdir i dir amaeth

Ymhen y stryd roedd y paith yn cychwyn, sef diffeithwch sych, wedi ei orchuddio â llwyni gwasgaredig a cherrig mân crynion wedi eu treiglo yma o'r Andes gan afonydd a rhewlifoedd y gorffennol. Llawr y dyffryn, ar y llaw arall, yn ffrwythlon am iddo gael ei drawsnewid drwy ymdrech nid llai nag arwrol y gwladfawyr cynnar, o anialdir llwyr i dir amaeth gwerthfawr.



Diffeithwch y paith – llwyni gwasgaredig a cherrig mân y tu cefn i'r Gaiman



Mor wahanol: llawr y dyffryn wedi ei ddyfrio, cnwd o alffalffa a choed poplys tal yn gysgod gwynt

Meddyliwch, gadael glesni brynau Cymru a glanio ar draeth Porth Madryn ddiwedd Gorffennaf 1865 yn oerni'r gaeaf deheuol, a dim ond anghyfannedd y paith hyd y gorwel yn eu wynebu. Teithio ddeugain milltir i'r de i aber yr Afon Camwy a dechrau clirio llwyni oddiar lawr y dyffryn i fedru hau cnydau. Bu bron i'r cyfan fethu, ond yn 1867 daeth newid byd pan ddarganfyddwyd sut i ddyfrio'r tir. Gwraig ifanc, Rachel Jenkins, sylwodd bod yr afon yn cael ei chadw yn ei lle gan geulannau naturiol oedd yn golygu bod lefel y dŵr ychydig yn uwch na'r tir o'i chwmpas. Dywedodd wrth ei gŵr i dorri bwlch yn y geulan fel y gellid dyfrio'r gwenith yr oeddent newydd ei hau. Llwyddiant! Ac o fewn 15 mlynedd roedd gwenith y dyffryn yn ennill medalau aur am y safon orau mewn ffeiriau rhyngwladol yng Ngogledd America ac Ewrop.

Rhaid oedd agor camlesi a ffosydd i ddod a dŵr i'r ffermydd oedd ymhellach o'r afon. Dyma ddisgrifiad o'r broses:

'Ar fore oer o aeaf dwyn prysgwydd a'u gwasgaru ar y darn yr arfaethid ei gloddio, ennyn tân, ac aros i'r gwres ddadmer croen y ddaear er mwyn llwyddo i dorri'r arwynebedd haearn. Ar ddydd o haf, codi erbyn pump y bore, a llafurio nes i fraich yr haul lorio dyn ganol dydd a'i gadw yno hyd nes ddi cyfle i ail gydio yn y gwaith amser te' (Gareth Alban Davies, *Tan Tro Nesa*, 1976).



Tir ar lawr y dyffryn yn cael ei ddyfrio

Gwnaethpwyd hyn heb unrhyw brofiad blaenorol o weithio na thrin y tir mewn lle mor anodd. Dywedodd rhywun o Borth Madryn wrtha'i, mai dim ond y Cymry, yr Albanwyr, a'r Basgiaid oedd â digon o ddyncwch i lwyddo mewn lle o'r fath. Pobl y mynydd-dir i gyd, sylwch.

Erbyn hyn, magu gwartheg a defaid welir yma yn bennaf, ynghyd â ffrwythau a llysiau. Tyfu ceirios yn bwysig iawn yn y dyffryn. Mae ffatri fawr yn y Gaiman i brosesu ac allforio ceirios i Ewrop a rhannau eraill o'r byd. Felly, y tro nesa y byddwch yn prynnu bocsiad o geirios, meddylwch o ble y daethont.

Sefyllfa debyg yng Nghwm Hyfryd yn yr Andes. Magu defaid a gwartheg ar estancias mawr ar y paith cyfagos, ond llawr y dyffryn yn ardal Trevelin yn ffrwythlon iawn o gwmpas yr afonydd Percy a Cerynt, sy'n llifo i'r Afon Fawr. Ar fferm Eric Green, Pennant, roedd 10 acer o foron yn cael eu tyfu i'w hallforio, ac roedd consortiwm o saith o ffermydd yn tyfu ffrwythau, megis cyraintsh duon a chochion, mefys, riwbob ayyb, i gyd ar gontract i Marks & Spencer. A sut oedden nhw yn eu cael i'r farchnad? Wel, roedd lorïau oergell yn dod â bwydydd i'r archfarchnadoedd yn Nhrevelin, Esquel a phentrefi eraill yn yr ardal, ac yn hytrach na mynd yn ôl i dalaith Buenos Aires yn wag cafwyd cytundeb i gario ffrwythau'r consortiwm yn rhad i'w hallforio i M&S ym Mhrydain a gogledd America.

Un o'r argraffiadau mwyaf cofiadwy oedd teithio o'r Gaiman i Borth Madryn 60 milltir i ffwrdd ar draws gwastadedd di-derfyn y paith. Rhaglen wythnosol Luned Gonzales ar radio'r car, sy'n gweithredu fel papur bro dros y tonfeddi i'r gwladfawyr. Yn sydyn, 'Dan ni yma o hyd...' Dafydd Iwan. Waw! O hynny ymlaen bu'm yn traethu wrth pawb: 'Dyma anthem i'n huno – er i ni yng Nghymru fod dan fawd estron am 750 mlynedd, 'dan ni'n dal yma ac yn siarad Cymraeg. Chithau yn y Wladfa, yma ers dros 150 o flynyddoedd, ac yn dal i siarad Cymraeg.' Ia, yma o hyd. O'r holl genhedloedd Ewropeaidd heblaw Sbaen, a ymsefydlodd yn

yr Ariannin, yr unig un i gadw ei hiaith wreiddiol am fwy na chenhedlaeth neu ddwy yw y Cymry.